**Theatr Clwyd**
**TECHNEGYDD GOLEUO**
Disgrifiad Swydd

Teulu: Creu Theatr
Yn gyfrifol am: Amherthnasol
Yn adrodd i: Rheolwr Goleuo
Graddfa: OP3

## Pwrpas y Swydd

Bydd y Technegydd Goleuo yn gweithio fel rhan o'r tîm goleuo i ddarparu gwasanaeth sydd o'r safon uchaf bosibl i holl gynyrchiadau Theatr Clwyd a chynyrchiadau sy'n ymweld. Mae'r rôl yn gofyn am lefel dda o wybodaeth am oleuo o fewn cyd-destun creu theatr a sgiliau ymarferol cadarn. Mae ein Teulu Creu Theatr yn darparu cyfleusterau creu theatr o safon byd ac mae'r Technegydd Goleuo'n cefnogi ein gwaith cynhyrchu, yn ogystal â chefnogi'r cwmnïau sy'n ymweld rydym yn eu gwahodd i'n hadeilad.

## Cyfrifoldebau allweddol

### Creu Theatr

- Darparu cefnogaeth gyda holl ofynion Goleuo cynyrchiadau Theatr Clwyd, a gweithio gydag aelodau'r tîm creadigol i sicrhau bod cefnogaeth dechnegol mewn goleuo yn cael ei rhagweld a'i darparu ar gyfer holl waith Theatr Clwyd, y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad, gan gynnwys cefnogi tîm Technegol y Lleoliad ar gyfer cynyrchiadau sy'n ymweld a digwyddiadau.
- Ymgymryd â gwaith ymarferol mewn perthynas â gwneud gofynion LX penodol ar gyfer cynyrchiadau Theatr Clwyd, gan gynnwys gwaith trydanol setiau ac unrhyw LX ymarferol yn yr adran props / gwisgoedd.
- Ymgymryd â gwaith ymarferol mewn perthynas â dod i mewn, ffitiadau, datgymalu a mynd allan, gan gynnwys cydosod, rigio, addasu a defnyddio offer goleuo, effeithiau arbennig (gan gynnwys gwaith trydanol setiau) ac unrhyw brops LX ymarferol ac ati.
- Darparu cefnogaeth goleuo a thechnegol i holl ddefnyddwyr y theatr ac unrhyw ofod ymarfer.
- Darparu cefnogaeth goleuo a thechnegol yn ystod perfformiadau yn ôl yr angen.
- Gosod unrhyw offer technegol sydd ei angen ar gyfer gofod perfformio neu ddigwyddiadau.
- Lle bo angen, darparu cymorth technegol i ddefnyddwyr allanol.
- Bod yn gyfrifol am agor a chau'r ardaloedd cefn llwyfan pan fo angen.
- Gyda'r Technegwyr eraill, cynnal a chadw'r ardaloedd cefn llwyfan yn gyffredinol, gan gynnwys y llwyfan, y bocsys rheoli golau a sain, y gweithdy LX a'r mannau storio, gan sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda bob amser.

### Iechyd a Diogelwch

- Sicrhau bod yr holl ofynion Iechyd a Diogelwch yn cael eu bodloni bob amser wrth weithio.
- Mynychu hyfforddiant yn ôl yr angen a chynnal ymwybyddiaeth o reoliadau Iechyd a Diogelwch sy'n benodol i'r gofod a'r offer a ddefnyddir.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Goleuo i gynnal archwiliadau diogelwch a chynnal a chadw rheolaidd ar yr holl offer goleuo, y peiriannau, y gosodiadau a'r ffitiadau.
- Sicrhau bod yr holl offer trydanol arbenigol yn cael eu cau i lawr yn gywir ar ddiwedd pob diwrnod gwaith.
- Sicrhau bod pob perygl posibl yn cael ei wneud yn ddiogel cyn gynted â sy'n ymarferol bosibl.
- Cynorthwyo'r staff ac aelodau'r gynulleidfa i adael yr adeilad yn ddiogel os bydd tân neu argyfwng.
- Ar y cyd â thîm Technegol y Lleoliad, sicrhau bod llogwyr allanol yn cael eu briffio'n llawn ar ddefnydd diogel o ofod y theatr.

**Dyletswyddau Eraill**

- Sicrhau bod yr holl offer yn cael ei storio'n ddiogel a'i fod yn hygyrch i ddefnyddwyr awdurdodedig.
- Cadw rhestr o'r holl offer a’r deunyddiau a gedwir ac a ddefnyddir.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â chais rhesymol y Rheolwr Goleuo.

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**

- Profiad ymarferol perthnasol o weithio mewn lleoliad neu adran dechnegol theatr, neu gwmni teithiol neu debyg, neu gymhwyster cydnabyddedig priodol.
- Profiad o rigio, addasu, rhaglennu a gweithredu goleuadau theatrig, dosbarthu pŵer, a dealltwriaeth ymarferol o drydan a / neu electroneg.
- Gwybodaeth am theori ac ymarfer trydanol yn ymwneud â systemau goleuo theatr.
- Gwybodaeth gyfredol am systemau goleuo, cyfarpar rheoli, offer a'r gwaith o'u cynnal a'u cadw.
- Gwybodaeth ymarferol am ddulliau rigio a'r defnydd diogel o offer codi.
- Gallu clir i ddarllen a deall cynlluniau technegol, gyda gwybodaeth am CAD a rhaglenni eraill.
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, gyda'r gallu i gyfathrebu'n glir ac yn gyson â holl ddefnyddwyr y theatr a’r gofod digwyddiadau, yn enwedig defnyddwyr nad ydynt yn dechnegol.
- Y gallu i ddefnyddio ystod eang o gelfi pŵer cludadwy ac offer llaw yn ddiogel ac yn hyderus.
- Dull trefnus o weithio, gydag enw da am gadw at derfynau amser a rheoli blaenoriaethau sy'n gwrthdaro.
- Profiad o weithredu gofynion Iechyd a Diogelwch ac asesiadau risg.
- Profiad codi a chario diogel, ac yn fodlon gweithio ar uchder.
- Hyder i weithio'n annibynnol ond hefyd parodrwydd i gydweithio ar draws nifer o adrannau.
- Y gallu i weithio oriau hyblyg ac anghymdeithasol, gan gynnwys gyda'r nosau, penwythnosau a gwyliau banc.

**Dymunol**

- Profiad o rigio, addasu a gweithredu offer effeithiau arbennig, sain a fideo.
- Profiad o rigio, addasu a gweithredu systemau rigio a hedfan theatrig.
- Profiad o osod a rigio systemau decio golygfeydd a llwyfannau.
- Hyfforddiant gweithio ar uchder.
- Hyfforddiant mewn codi a chario, MEWP, defnyddio ystolion a thalesgop.
- Profiad o reoli digwyddiadau.
- Gwybodaeth am fyd y theatr, dawns a ffurfiau celfyddydol eraill o fewn y DU yn gyffredinol ac yng Nghymru yn benodol.
- Cymraeg ysgrifenedig a llafar.
- Trwydded yrru lawn.